# Pecyn cymorth cydnabyddiaeth

Sut i gydnabod a dathlu eich grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with

Cronfa Treftadaeth

Heritage Fund

Fersiwn 1.0



# Cynnwys


**03 Cyflwyniad**
**04 Cynllunio eich cydnabyddiaeth**
**05 Gofynion cydnabyddiaeth grant**
**06 Sut i gydnabod eich grant**
10 Sianeli digidol
14 Deunyddiau printiedig
15 Cysylltiadau cyhoeddus
16 Arwyddion
18 Digwyddiadau lansio, dathlu a phen-blwydd
19 Arddangosfeydd, arddangosion, arddangosiadau ac arteffactau
20 Deunyddiau hyrwyddo
21 Dillad â brand arnynt
22 Ffotograffiaeth
**23 Creu gofod newydd**
**25 Sut i siarad am eich grant**
**33 Sut i ddefnyddio ein stamp cydnabyddiaeth**
**49 Cymeradwyo cydnabyddiaeth**

## Cyflwyniad

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ydyn ni. Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. Credwn mewn nerth treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol.

Fel yr ariannwr mwyaf o dreftadaeth y DU, rydym yn dosbarthu grantiau gan y Loteri Genedlaethol o £10,000 i £10miliwn a mwy. Mae derbyn grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rhywbeth i'w ddathlu Nid yn unig y mae'n foment pan allwch ddechrau gwireddu'ch holl syniadau a chynlluniau, mae hefyd yn gydnabyddiaeth y bydd eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth pendant i bobl, lleoedd a chymunedau.

Mae cydnabod eich grant gan y Gronfa Treftadaeth yn rhan bwysig o'ch prosiect. Dyma'ch cyfle i gydnabod ein cefnogaeth a diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, na fyddai ein hariannu'n bosib hebddynt. Bydd cydnabod eich grant yn dangos yr effaith y mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn ei chael ac yn ein galluogi i barhau i gefnogi prosiectau – fel eich un chi – yn y dyfodol.

## Cynllunio eich cydnabyddiaeth

Mae angen i bawb sy'n derbyn grant gan y Gronfa Treftadaeth gydnabod ein cefnogaeth yn gyhoeddus. Dylai pob cydnabyddiaeth fod yn amlwg, gyda lefel yr amlygrwydd yn gymesur â maint y grant. Er enghraifft, bydd angen lefel uwch o gydnabyddiaeth ar gyfer prosiect mawr sy'n derbyn £1m nag un llai sy'n derbyn £10,000. Cofiwch fod pob prosiect yn wahanol felly ni fydd popeth yn y pecyn cymorth hwn yn berthnasol i chi.

**Mae'n well cynllunio cydnabyddiaeth i mewn o'r cychwyn cyntaf.** Bydd meddwl amdano'n gynnar yn y broses a dyrannu cyllideb briodol yn eich helpu i gydnabod eich ariannu mewn ffyrdd sydd nid yn unig yn bodloni ein gofynion ni ond sydd hefyd wedi'u teilwra ac sy'n addas ar gyfer eich prosiect. Gwnaethom ofyn i chi gynnwys cyllideb ar gyfer cydnabyddiaeth a gweithgareddau hyrwyddo yn y categori costau 'Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo' yn adran costau prosiect y cais.

Gobeithiwn y byddwch yn dod o hyd i bopeth sydd ei angen arnoch i gynllunio eich cydnabyddiaeth yn y pecyn cymorth hwn. Oes gennych gwestiynau o hyd? Cysylltwch â ni a byddwn yn falch o helpu, e-bostiwch brand@heritagefund.org.uk

# Prosiectau rhwng £10,000 a £250,000

Mae ein grid isod yn dangos sut y dylech gydnabod ein hariannu. Mae pob prosiect yn wahanol ac ni fydd popeth ar y rhestr yn berthnasol i bob prosiect.

| Gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r prosiect | Datganiad cydnabyddiaeth | Stamp cydnabyddiaeth | Dyfyniad gan y Gronfa Treftadaeth | Datganiad 'Amdanom Ni' /nodiadau i olygyddion y Gronfa Treftadaeth | Erthygl y Gronfa Treftadaeth | Cyfweliad â'r Gronfa Treftadaeth | Cynrychiolydd o'r Gronfa Treftadaeth yn dod i lansiad | Enwi gofod newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd cysylltiadau cyhoeddus:** er enghraifft; cyhoeddiadau grant, lansiad neu ddatganiad i'r wasg carreg filltir, cyfweliadau, areithiau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| **Digidol:** er enghraifft; gwefannau, mewnrwydi, fideos a blogiau, cyflwyniadau, deunyddiau addysgol, cylchlythyrau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| **Sianeli cyfryngau cymdeithasol:** cydnabod ariannu mewn postiad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol er enghraifft; Facebook, Instagram, Twitter / X, TikTok, YouTube, LinkedIn, ac ati | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Lansiad, agoriad, neu ddigwyddiadau carreg filltir, digwyddiadau pen-blwydd:** deunydd gan gynnwys: gwahoddiadau, tocynnau, areithiau, bathodynnau, posteri, arwyddion, datganiadau i'r wasg, cyfweliadau â'r cyfryngau, rhoddion hyrwyddo, lifrai, dillad â brand arnynt, goleuo, gobos, cyflwyniadau, fideos, teisennau ac ati | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | |
| **Hysbysebu:** hysbysebion papur newydd, allan o gartref, teledu neu radio | | ✓ | | | | | | |
| **Deunyddiau printiedig:** er enghraifft; posteri, taflenni, pamffledi, tocynnau, gwahoddiadau a baneri, mapiau, cardiau post | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Deunyddiau corfforaethol:** adroddiadau blynyddol, adroddiadau effaith | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Arwyddion ar gyfer adeiladau, adeileddau neu ofodau allanol:** gan gynnwys arwyddion corfforaethol dros dro a pharhaol, arwyddion cyfeirio, byrddau arianwyr, placiau, sticeri ffenestr, fflagiau a baneri, matiau drws | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Arddangosfeydd amgueddfa neu lyfrgell:** arddangosfeydd neu arddangosiadau arteffactau, paneli dehongli, naratif, canllawiau/mapiau, tocynnau a deunyddiau cysylltiedig gan gynnwys ymgyrchoedd hysbysebu y tu allan i'r cartref, papur newydd neu ddigidol | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Rhoddion wedi'u brandio:** dillad, sticeri ar offer ac ati | | ✓ | | | | | | |
| **Ariannu staff neu leoliadau gwaith:** disgrifiadau swydd neu hysbysebion swydd, lifrai staff | ✓ | ✓ | | | | | | |

# Prosiectau rhwng £250,000 a £10miliwn

Mae ein grid isod yn dangos sut y dylech gydnabod ein hariannu. Mae pob prosiect yn wahanol ac ni fydd popeth ar y rhestr yn berthnasol i bob prosiect.

| **Gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r prosiect** | **Datganiad cydnabyddiaeth** | **Stamp cydnabyddiaeth** | **Dyfyniad gan y Gronfa Treftadaeth** | **Datganiad 'Amdanom Ni' /nodiadau i olygyddion y Gronfa Treftadaeth** | **Erthygl y Gronfa Treftadaeth** | **Cyfweliad â'r Gronfa Treftadaeth** | **Cynrychiolydd o'r Gronfa Treftadaeth yn dod i lansiad** | **Enwi gofod newydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd cysylltiadau cyhoeddus:** er enghraifft; cyhoeddiadau grant, lansiad neu ddatganiad i'r wasg carreg filltir, cyfweliadau, areithiau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| **Digidol:** er enghraifft; gwefannau, mewnrwydi, fideos a blogiau, cyflwyniadau, deunyddiau addysgol, cylchlythyrau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| **Sianeli cyfryngau cymdeithasol:** cydnabod ariannu mewn postiad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol er enghraifft: Facebook, Instagram, Twitter/X, TikTok, YouTube Linkedin, etc | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | |
| **Lansiad, agoriad, neu ddigwyddiadau carreg filltir, digwyddiadau pen-blwydd:** deunyddiau gan gynnwys gwahoddiadau, tocynnau, areithiau, bathodynnau, posteri, arwyddion, datganiadau i'r wasg, cyfweliadau â'r cyfryngau, rhoddion hyrwyddo, lifrai, dillad â brand arnynt, goleuo, gobos, cyflwyniadau, fideos, teisennau ac ati | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| **Hysbysebu:** hysbysebion papur newydd, allan o gartref, teledu neu radio | | ✓ | | | | | | |
| **Deunyddiau printiedig:** er enghraifft; posteri, taflenni, pamffledi, tocynnau, gwahoddiadau a baneri, mapiau, cardiau post | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Deunyddiau corfforaethol:** adroddiadau blynyddol, adroddiadau effaith | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | |
| **Arwyddion ar gyfer adeiladau, adeileddau neu ofodau allanol:** gan gynnwys arwyddion corfforaethol dros dro a pharhaol, arwyddion cyfeirio, byrddau arianwyr, placiau, sticeri ffenestr, fflagiau a baneri, matiau drws | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Arddangosfeydd amgueddfa neu lyfrgell:** arddangosfeydd neu arddangosiadau arteffactau, naratif, canllawiau/mapiau, tocynnau a deunyddiau cysylltiedig gan gynnwys ymgyrchoedd hysbysebu y tu allan i'r cartref, papur newydd neu ddigidol | ✓ | ✓ | | | | | | |
| **Rhoddion wedi'u brandio:** dillad, sticeri ar offer | | ✓ | | | | | | |
| **Ariannu staff neu leoliadau gwaith:** disgrifiadau swydd neu hysbysebion swydd, lifrai staff | ✓ | ✓ | | | | | | |
| Ystyriwch enwi gofod mewn cydnabyddiaeth o'ch *grant dros £1m | | | | | | | | ✓ |
| Uwch gynrychiolydd o'r Gronfa Treftadaeth yn chwarae rôl arweiniol yn y seremoni agoriadol (os yn ariannu'r mwyafrif) *Prif Weithredwr/Cadeirydd ar gyfer prosiectau dros £5m | | | | | | | ✓ | |

# Ar gyfer grantiau dros £250,000

## Ar gyfer grantiau dros £250,000

- Disgwyliwn i'r grantï ddarparu hierarchaeth logos i'w chymeradwyo er mwyn dangos sut y bydd ein stamp cydnabyddiaeth yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â logos arianwyr eraill.
- Mae angen i ni weld delweddau gweledol yn gynnar yn eu datblygiad, i ddangos sut y bydd ein stamp cydnabyddiaeth yn cael ei ddefnyddio ar yr holl weithgareddau hyrwyddo, brandio a deunyddiau sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Rydym hefyd yn disgwyl gweld cynllun cyfathrebiadau sy'n cwmpasu'r prosiect o'r dechrau i'r diwedd.


Dylid anfon y rhain at eich Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu a'ch Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Treftadaeth.

# Sut i gydnabod eich grant

Noder mai dim ond prosiectau sy'n cydnabod ariannu gan y Loteri Genedlaethol a ddylai ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn. Mae gennym arweiniad gwahanol ar gyfer prosiectau sydd wedi derbyn ariannu nad yw'n dod o'r Loteri, am fwy o fanylion gyrrwch e-bost i brand@heritagefund.org.uk

## Gwefannau a mewnrwydi

- Os mai ni yw ariannwr pennaf y prosiect, y lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabyddiaeth yw safle annibynnol ar frig tudalen hafan gwefan y prosiect.
- Os ydym yn un o nifer o arianwyr, mae'n well gennym i logos arianwyr eraill a'n stamp cydnabyddiaeth ni gael eu dangos yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Dylid cynnwys ein datganiad 'Ynghylch y Gronfa Treftadaeth' a'n datganiad cydnabyddiaeth a dolen i wefan y Gronfa Treftadaeth.
- Gellir darparu dyfyniad ar gyfer y dudalen os oes angen. Cysylltwch â'ch Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu a'ch Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Treftadaeth.
- Mewn amgylchiadau lle nad yw'n bosibl ychwanegu ein stamp cydnabyddiaeth at y dudalen hafan, gellir ei ychwanegu at dudalen we arianwyr neu bartneriaid. Dylid cynnwys ein datganiad 'Ynghylch y Gronfa Treftadaeth' a'n datganiad cydnabyddiaeth, a dolen i'n gwefan.
- Os caiff y prosiect ei grybwyll ar wefannau trydydd parti, yna dylid cyfeirio at y ffaith ein bod wedi ariannu'r prosiect.




## Fideos, blogiau a chyflwyniadau

- Dylid defnyddio ein stamp cydnabyddiaeth a 'Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol' ar sleidiau cyflwyniadol neu derfynol.
- Os mai ni yw ariannwr pennaf y prosiect, y lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabyddiaeth yw safle annibynnol.
- Os ydym yn un o nifer o arianwyr, mae'n well gennym i logos arianwyr eraill a'n stamp cydnabyddiaeth ni gael eu dangos yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Dylid crybwyll cydnabyddiaeth o'ch grant yn y sgript.
- Dylid ystyried cynnal cyfweliad gyda Phrif Weithredwr, Cadeirydd neu uwch aelod o'r Gronfa Treftadaeth ar gyfer grantiau dros £5miliwn. Cysylltwch â'ch Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu am fwy o wybodaeth.



## Cyfryngau cymdeithasol

- Dylid rhannu postiad ar gyfryngau cymdeithasol yn cydnabod eich ariannu ar ôl i'ch grant gael ei ddyfarnu.
- Dylai postiadau gyfeirio at Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.
- Dilynwch a thagiwch @HeritageFundCYM a/neu gyfrif Twitter/X eich Cronfa Treftadaeth leol, a defnyddiwch yr hashnodau #LoteriGenedlaethol #CronfaTreftadaeth.
- Dylid dangos ein stamp cydnabyddiaeth ar broffiliau a phostiadau ar Facebook, Instagram, LinkedIn, Twitter/X, TikTok a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill fel y bo angen.
- Os mai ni yw ariannwr pennaf y prosiect, y lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabyddiaeth yw safle annibynnol ar asedau cyfryngau cymdeithasol. Os ydym yn un o nifer o arianwyr, mae'n well gennym i logos arianwyr eraill a'n stamp cydnabyddiaeth ni gael eu dangos yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Rydym wedi creu templedi cyfryngau cymdeithasol y gellir eu golygu.
- Lawrlwytho asedau cyfryngau cymdeithasol.




## Cyfryngau cymdeithasol

**Cymerwch ran yn ein momentau cyfryngau cymdeithasol allweddol trwy gydol y flwyddyn i gydnabod eich grant. Gallai hyn gynnwys:**

- **#Trysorau** Treftadaeth ar 11 Ionawr pan allwch amlygu eich trysorau treftadaeth o bob math.
- **#DiolchIChi** y diwrnod hunlun bysedd croes ym mis Tachwedd pan allwch ddweud diolch yn fawr iawn i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.
- **#TreftadaethArAgor** ar 21 Mehefin a thrwy'r haf – rhannwch eich digwyddiadau ac agoriadau yn yr haf.
- • Gallwch hefyd ymddangos yn ein prosiect ailrannu Instagram wythnosol trwy ein tagio ni ar Instagram.

I gael gwybod am gyfleoedd i gymryd rhan ar gyfryngau cymdeithasol cofrestrwch ar gyfer ein rhestr bostio.






# Deunyddiau printiedig

- Dylai cydnabyddiaeth o’n hariannu fod yn amlwg iawn ar yr holl ddeunyddiau printiedig sy’n gysylltiedig â’r prosiect.
- Os mai ni yw ariannwr pennaf y prosiect, y lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabyddiaeth yw safle annibynnol, i ffwrdd o logos arianwyr eraill ar frig unrhyw ddeunyddiau ar y chwith neu’r dde.
- Os ydym yn un o nifer o arianwyr, mae’n well gennym i logos arianwyr eraill a’n stamp cydnabyddiaeth ni gael eu dangos yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Byddem yn disgwyl i chi greu deunyddiau sy’n cydweddu â’n gofynion cynaladwyedd. Mae’r rhain yn cynnwys defnyddio deunyddiau ecogyfeillgar/wedi’u hailgylchu a defnyddio cyflenwr achrededig y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) lle bo modd.
- Ein harweiniad cynaladwyedd amgylcheddol.






# Cysylltiadau cyhoeddus

- Dylid cynnwys cydnabyddiaeth o'n hariannu mewn datganiadau i'r wasg sy'n cyhoeddi:
  - riannu'r cam datblygu
  - ariannu'r cam cyflwyno
  - cerrig milltir allweddol
  - digwyddiadau lansio/agor
- Dylai datganiadau i'r wasg sy'n cael eu creu a'u cyhoeddi ar y cyd gynnwys dyfyniad gan gynrychiolydd o'r Gronfa Treftadaeth.
- Dylid cyfeirio at ein hariannu mewn cyfweliadau â'r cyfryngau.
- Lawrlwytho templedi datganiad i'r wasg.
- I gael dyfyniadau gan y Gronfa Treftadaeth a chymeradwyaeth ar gyfer pob datganiad i'r wasg, cysylltwch â'ch Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu a'ch Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Treftadaeth.
- Dylid cynnwys ein geiriad cymeradwy ar gyfer nodiadau i olygyddion ym mhob datganiad i'r wasg. Gweler adran Nodiadau i olygyddion y pecyn cymorth hwn.
- Dylid cyfeirio at ein hariannu hefyd mewn digwyddiadau pen-blwydd neu ddathlu yn y dyfodol.
- Mae arweiniad ar sut i siarad am Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi'i gynnwys yn adran Ysgrifennu ein henw y pecyn cymorth hwn.

## Arwyddion ar gyfer adeiladau, adeileddau a gofodau allanol

- Dylai cydnabyddiaeth o'n hariannu fod yn amlwg iawn ar yr holl brif arwyddion sy'n gysylltiedig â'r prosiect.
- Os mai ni yw ariannwr pennaf y prosiect, y lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabyddiaeth yw safle annibynnol, i ffwrdd o logos arianwyr eraill.
- Os ydym yn un o nifer o arianwyr, mae'n well gennym i logos arianwyr eraill a'n stamp cydnabyddiaeth ni gael eu dangos yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Ar fyrddau arianwyr, os mai ni yw'r ariannwr pennaf, y lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabod yw sefyllfa annibynnol. Os ydym yn un o nifer o arianwyr gellir defnyddio'r logo cydnabyddiaeth yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Dylid gosod arwyddion mewn mannau amlwg wrth fynedfeydd (wedi'u hintegreiddio i ffabrig yr adeilad os yn bosibl), ar arwyddion gatiau mynediad, arwyddion oriau agor, desgiau tocynnau mynediad ac mewn mannau amlwg eraill lle y bydd yn weladwy i ymwelwyr.
- Ni ddylai arwyddion gael eu rhwystro a rhaid eu cynhyrchu ar faint sy'n weladwy i gerddwyr neu yrwyr fel y bo'n briodol.









- Ar gyfer prosiectau gwaith cyfalaf (adfer, cadwraeth natur, treflun) dylid arddangos hysbysfyrddau safle mawr â'r gydnabyddiaeth arnynt tra bod y gwaith yn mynd rhagddo.
- Dylai'r arwyddion fod yn eu lle o fewn 30 diwrnod i ddechrau'r prosiect, (arwyddion dros dro os yw'n briodol) ac yn barhaol o fewn 30 diwrnod o'i gwblhau am oes y prosiect, neu am byth os yw'n ofod parhaol.
- Mae'r derbynnydd yn gyfrifol am sicrhau bod arwyddion wedi'u gwneud o ddeunyddiau cydnerth priodol, gan ddefnyddio deunyddiau amgylcheddol gynaliadwy lle bo modd, a'u bod yn cael eu harddangos mewn fformat sy'n gweddu orau i'r safle. Dylid eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da drwy gydol y prosiect neu am byth ar gyfer adeileddau parhaol, gofodau ac ati.
- Dylid anfon manylion yr arwyddion arfaethedig gyda'r lleoliad/lluniau at eich Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu a'ch Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Treftadaeth i gael eu cymeradwyo.
- Byddem yn disgwyl i chi greu deunyddiau sy'n cydweddu â'n gofynion cynaladwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio deunyddiau sy'n llesol i'r amgylchedd/wedi'u hailgylchu ac ymgorffori cydnabyddiaeth mewn ardaloedd sy'n bodoli eisoes (er enghraifft ysgythriadau ar wydr ffenestri, ysgythriadau ar fetel a phren).
- Os oes angen newid arwyddion unrhyw bryd, cofiwch sicrhau eich bod yn defnyddio ein stamp neu logo mwyaf diweddar.












## Digwyddiadau lansio, dathlu a phen-blwydd

- Dylai cydnabyddiaeth o'n cyllid fod yn amlwg iawn mewn digwyddiadau agor, lansio neu ddathlu a dylid cyfeirio ati mewn areithiau.
- Dylid cynnwys y stamp cydnabyddiaeth, datganiad, dyfyniadau ac ati ym mhob gweithgaredd hyrwyddo, deunyddiau'r digwyddiad a brandio sy'n gysylltiedig â'r agoriad/lansio.
- Os mai ni yw'r ariannwr pennaf, gofynnwn am safle annibynnol, i ffwrdd o logos arianwyr eraill. Y safle a ffefrir gennym ar gyfer ein stamp cydnabyddiaeth yw ar frig unrhyw ddeunydd, ar y chwith neu'r dde.
- Os ydym yn un o nifer o arianwyr, mae'n well gennym i gael eu dangos yn nhrefn maint y grantiau a ddyfarnwyd.
- Ar gyfer grantiau dros £1miliwn, dylai cynrychiolydd o'r Gronfa Treftadaeth chwarae rhan fawr yn y digwyddiad lansio ac mewn cyfweliadau â'r cyfryngau.
- Dylid cyfeirio at gydnabyddiaeth o ariannu mewn digwyddiadau pen-blwydd/dathlu yn y dyfodol.










## Arddangosfeydd, arddangosion, arddangosiadau ac arteffactau

- Dylai ein stamp cydnabyddiaeth fod yn amlwg iawn wrth y fynedfa i'r gofod arddangos, ar fyrddau dehongli ac ar bwynt arddangos yr eitem neu'r arddangosyn.
- Dylid ei ddefnyddio hefyd mewn naratif teithiau, arweinlyfrau/mapiau, tocynnau a deunyddiau cysylltiedig.
- Rhaid defnyddio'r stamp cydnabyddiaeth mewn hysbysebion sy'n gysylltiedig â'r prosiect gan gynnwys ymgyrchoedd hysbysebu y tu allan i'r cartref, mewn papurau newydd neu ddigidol.



## Deunyddiau hyrwyddo

**Os ydych yn cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo fel rhan gynlluniedig o'ch prosiect:**

- Dylai ein stamp cydnabyddiaeth fod yn amlwg iawn ar bob eitem.
- Wrth gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo ystyriwch ddefnyddio deunyddiau a dulliau cynhyrchu cynaliadwy sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Ein harweiniad cynaladwyedd amgylcheddol.
- Rydym am i'r deunyddiau rydych yn eu dylunio ddefnyddio ein stamp cydnabyddiaeth mewn ffyrdd llawn dychymyg sy'n addas ar gyfer eich prosiect. Roedd rhai enghreifftiau yn y gorffennol yn cynnwys defnyddio'r stamp ar becynnau hadau, bagiau o flawd wedi'i falu'n draddodiadol, a phecynnau cydau te.



## Dillad â brand arnynt/lifrai ar gyfer staff a gwirfoddolwyr

**Os ydych yn cynhyrchu lifrai neu ddillad â brand arnynt fel rhan gynlluniedig o'ch prosiect:**

- Dylid cynnwys ein stamp cydnabyddiaeth ar flaen a/neu gefn dillad â brand arnynt. Dylid hefyd ei gynnwys ar gapiau/hetiau i wirfoddolwyr neu staff.
- Wrth gynhyrchu dillad â brand arnynt ystyriwch ddefnyddio deunyddiau a dulliau cynhyrchu cynaliadwy sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Ein harweiniad cynaladwyedd amgylcheddol.
- Os defnyddiwyd ein hariannu i brynu offer, er enghraifft, gliniaduron, ystyriwch greu sticer stamp cydnabyddiaeth i'w roi ar offer.

## Ariannu staff neu hyfforddeion

Dylid cynnwys y stamp cydnabyddiaeth a datganiad:

- mewn disgrifiadau swydd
- mewn hysbysebion ar gyfer swyddi staff neu hyfforddeion a ariennir











## Ffotograffiaeth

- Fel rhan o'ch adroddiad cynnydd grant, bydd angen i chi gyflwyno delweddau o'ch prosiect. Rydym hefyd angen delweddau i'w defnyddio ar ein gwefan ac i'w rhoi i'r cyfryngau. Rydym yn chwilio am y delweddau gorau oll i ddangos y newid cadarnhaol a pharhaol y mae eich prosiect wedi'i greu ar gyfer pobl, cymunedau a threftadaeth.
- Rydym am weld ffotograffiaeth graff sydd â chyfansoddiad da ac sy'n adrodd stori. Rydym yn chwilio'n benodol am ffotograffiaeth sy'n llawn bywyd – yn gyfoeth o liw, egni, cymeriad ac yn bwysicaf oll, pobl. Cysylltwch â'ch Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu am fwy o fanylion.
- Anfonwch luniau o'ch prosiect at eich Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu a **brand@heritagefund.org.uk** Cofiwch gynnwys y caniatadau a'r credydau perthnasol ar gyfer y ddelwedd. Os byddwn yn defnyddio'ch delwedd byddwn yn rhoi credyd i'ch prosiect.







**Capsiynau a chredydau ar luniau (clocwedd o'r chwith uchaf):**

Big City Butterfly © Chris O'Donovan

Oriel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn National Portrait Gallery, London © Dave Parry

Porchester Castle, Hampshire © Sadé Elufowoju/ National Youth Theatre

# Creu gofod newydd

## Creu gofod newydd – dros £1miliwn

Os yw eich grant yn cynnwys creu gofod newydd – fel oriel, adain, canolfan ymwelwyr, ystafell addysg neu ofod allanol newydd fel gardd neu rodfa – hoffem i chi ystyried rhoi cydnabyddiaeth i'n hariannu wrth enwi'r gofod hwn. Mae gennym grŵp cymeradwyo enwau sy'n asesu pob cynnig ar sail yr achos unigol. Cysylltwch â'ch Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i drafod y dull y byddwch yn ei ddefnyddio. Os cewch eich cymeradwyo bydd gofyn i chi ddarparu delweddiad o sut y bydd yr enw a'r gydnabyddiaeth yn cael eu cymhwyso yn y gofod.

**Os caiff eich cynnig ei gymeradwyo, bydd angen i chi gynnwys y canlynol:**


- Bydd gofyn i chi ddarparu delweddiad o sut y bydd yr enw a'r gydnabyddiaeth yn cael eu cymhwyso yn y gofod.
- Wrth gael ei arddangos mewn testun, ni ddylai'r enw gael ei fyrhau mewn unrhyw ffordd a dylai fod yn amlwg iawn mewn safle annibynnol wrth y fynedfa i'r gofod.
- Pan fydd yr enw wedi'i ysgrifennu mewn testun yn y gofod, gellir ei ddangos yn y confensiwn ffurfdeip a ddefnyddir ar draws gweddill eich adeilad/gofod. Os nad oes confensiwn yn ei le dylid defnyddio ffurfdeip y Gronfa Treftadaeth, Effra.
- Mae hefyd angen plac annibynnol gyda stamp cydnabyddiaeth y Gronfa Treftadaeth yn y gofod.
- Dylid cynnwys yr enw yn yr holl ddeunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo, deunyddiau digwyddiadau a hysbysebion sy'n gysylltiedig â'r gofod ynghyd â'n stamp cydnabyddiaeth, y dylid ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddyd yn y pecyn cymorth cydnabyddiaeth hwn.

Os oes angen unrhyw arweiniad pellach arnoch, cysylltwch â brand@heritagefund.org.uk

Y dull o enwi a ffafrir gennym yw:

**Oriel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol***

*Gall yr oriel gael ei disodli gan Adain, Canolfan Ymwelwyr, Ystafell Addysg, Gardd, Rhodfa ac ati.



# Sut i siarad am eich grant

## Sut i ysgrifennu ein henw

### Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mewn teitlau a phenawdau dylech bob amser ddefnyddio **Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol** yn llawn.

Lle defnyddir ein henw nifer o weithiau gellir defnyddio ffurf gryno **'Cronfa Treftadaeth'** ond nid mewn teitlau na phenawdau.

**Mae'n rhaid peidio â defnyddio'r byrfodd CTYLG.**

## Ein datganiadau cydnabyddiaeth

Dylid defnyddio'r datganiad hwn i gydnabod bod eich prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

### Fersiwn Saesneg

Using money raised by National Lottery players, The National Lottery Heritage Fund supports projects that connect people and communities with the UK's heritage. [Name of project] is made possible with The National Lottery Heritage Fund. Thanks to National Lottery players, we have been able to [short description of project].

### Fersiwn byrrach

[Name of project] is made possible with The National Lottery Heritage Fund. Thanks to National Lottery players, we have been able to [short description of project].

## Ein datganiadau cydnabyddiaeth - ieithoedd ychwanegol

Dylid defnyddio'r datganiad hwn i gydnabod bod eich prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

### Fersiwn Cymraeg

Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth y DU. Gwnaed [enw'r prosiect] yn bosibl gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym wedi gallu [disgrifiad byr o'r prosiect].

### Fersiwn byrrach

Gwnaed [enw'r prosiect] yn bosibl gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym wedi gallu [disgrifiad byr o'r prosiect].

### Fersiwn Gaeleg Yr Alban

Le airgead bho iomairtichean a' Chrannchuir Nàiseanta, tha Maoin Dualchas a' Chrannchair Nàiseanta a' toirt taic do phròiseactan a cheanglas daoine is coimhearsnachdan ri dualchas na Rìoghachd Aonaichte. Gabhaidh [ainm a' phròiseict] a thoirt gu buil le Maoin Dualchas a' Chrannchuir Nàiseanta. Air sgàth iomairtichean a' Chrannchuir Nàiseanta, fhuair sinn air [tuairisgeul beag den phròiseact].

### Fersiwn byrrach

Gabhaidh [ainm a' phròiseict] a thoirt gu buil le Maoin Dualchas a' Chrannchuir Nàiseanta. Air sgàth iomairtichean a' Chrannchuir Nàiseanta, fhuair sinn air [tuairisgeul beag den phròiseact].

## Datganiad Amdanom ni

Dylid defnyddio'r cyflwyniad safonol hwn ar wefannau i ddisgrifio'r sefydliad mewn mwy o fanylder. Dylai hyn gysylltu â heritagefund.org.uk

## Fersiwn Saesneg

The National Lottery Heritage Fund is the largest funder for the UK's heritage. Using money raised by National Lottery players we support projects that connect people and communities to heritage. Our vision is for heritage to be valued, cared for and sustained for everyone, now and in the future. From historic buildings, our industrial legacy and the natural environment, to collections, traditions, stories and more. Heritage can be anything from the past that people value and want to pass on to future generations. We believe in the power of heritage to ignite the imagination, offer joy and inspiration, and to build pride in place and connection to the past.

## Fersiwn Cymraeg

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf o dreftadaeth y DU. Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol rydym yn cefnogi prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth. Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. O adeiladau hanesyddol, ein hetifeddiaeth ddiwydiannol a'r amgylchedd naturiol, i gasgliadau, traddodiadau, straeon a mwy. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Credwn mewn nerth treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol.

## Fersiwn Gaeleg Yr Alban

Aithris Mar Deidhinn Is e Maoin Dualchas a' Chrannchuir Nàiseanta am maoinichear as motha de dhualchas na RA. Le airgead bho iomairtichean a' Chrannchuir Nàiseanta, tha sinn a' toirt taic do phròiseactan a cheanglas daoine is coimhearsnachdan ri dualchas. Is e ar lèirsinn gun tèid luach a chur ann, cùram a ghabhail dheth agus gun cùmar suas dualchas airson a' mhòr-shluaigh, an-dràsta agus san àm ri teachd. Bho thogalaichean eachdraidheil, ar dìleab gnìomhachais agus an àrainneachd nàdarra, gu cruinneachaidhean, nòsan, sgeulachdan is barrachd. 'S e a th' ann an dualchas ach nì sam bith bhon t-seann aimsir air an cuir daoine luach agus a bu mhiann leotha sìneadh a-nuas gu ginealaichean ri teachd. Tha sinn a' creidsinn gu bheil comas aig dualchas air cumhachd inntinn a spreigeadh, tlachd is misneachd a thoirt, agus moit às an sgìre is dàimh ris an t-seann aimsir a thogail.

## Nodiadau i olygyddion

Dylai'r datganiad hwn gael ei gynnwys fel nodiadau i olygyddion ym mhob datganiad i'r wasg sy'n ymwneud â'ch prosiect.

**About [name of your organisation]**
[Insert information about your organisation]

**About The National Lottery Heritage Fund**

Our vision is for heritage to be valued, cared for and sustained for everyone, now and in the future. That's why as the largest funder for the UK's heritage we are dedicated to supporting projects that connect people and communities to heritage, as set out in our strategic plan, Heritage 2033. Heritage can be anything from the past that people value and want to pass on to future generations. We believe in the power of heritage to ignite the imagination, offer joy and inspiration, and to build pride in place and connection to the past.

Over the next 10 years, we aim to invest £3.6billion raised for good causes by National Lottery players to make a decisive difference for people, places and communities.

**heritagefund.org.uk**

Follow @HeritageFundUK on Twitter/X, Facebook and Instagram and use #NationalLottery #HeritageFund

## Nodiadau i olygyddion – ieithoedd ychwanegol

Dylai'r datganiad gael ei gynnwys fel nodiadau i olygyddion ym mhob datganiad i'r wasg sy'n ymwneud â'ch prosiect.

## Fersiwn Cymraeg

**Ynghylch [enw eich sefydliad]**
[Rhowch wybodaeth am eich sefydliad]

**Ynghylch Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol**

Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. Dyna pam, fel yr ariannwr mwyaf o dreftadaeth y DU, yr ydym yn ymroddedig i gefnogi prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth, fel y nodir yn ein cynllun strategol, Treftadaeth 2033. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Credwn mewn nerth treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol.

Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym yn bwriadu buddsoddi £3.6 biliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, lleoedd a chymunedau.

**heritagefund.org.uk/cy**

Dilynwch @HeritageFundUK ar Twitter/X, Facebook ac Instagram a defnyddiwch #LoteriGenedlaethol #CronfaTreftadaeth

## Fersiwn Gaeleg Yr Alban

**Mu dheidhinn [ainm do bhuidhne]**
[Cuir a-steach fiosrachadh mun bhuidhinn agad]

**Mu Mhaoin Dualchas a' Chrannchuir Nàiseanta**

Is e ar lèirsinn gun tèid luach a chur ann, cùram a ghabhail dheth agus gun cùmar suas dualchas airson a' mhòr-shluaigh, an-dràsta agus san àm ri teachd. Sin as adhbhar gu bheil sinne, mar am maoinichear dualchais as motha san RA, dian air taic a thoirt do phròiseactan a tha a' fuaigheal dhaoine is choimhearsnachdan ri dualchas, mar a chuir sinn an cèill nar plana ro-innleachdail, Heritage 2033. 'S e a th' ann an dualchas ach nì sam bith bhon t-seann aimsir air an cuir daoine luach agus a bu mhiann leotha sìneadh a-nuas gu ginealaichean ri teachd. Tha sinn a' creidsinn gu bheil comas aig dualchas air cumhachd inntinn a spreigeadh, tlachd is misneachd a thoirt, agus moit às an sgìre is dàimh ris an t-seann aimsir a thogail.

Thairis air na 10 bliadhna ri thighinn, tha dùil againn £3.6 billean bho iomairtichean a' Chrannchuir Nàiseanta a thasgadh ann an adhbharan matha airson dhaoine, sgìrean agus choimhearsnachdan.

**heritagefund.org.uk**

Lean @HeritageFundUK air Twitter/X, Facebook is Instagram, agus cleachd #NationalLottery #HeritageFund

## Postiadau cyfryngau cymdeithasol enghreifftiol

### Example post one:

We're thrilled to announce (INSERT MONEY AMOUNT) support from @HeritageFundUK for our (INSERT PROJECT TITLE) project which will (INSERT WHAT PROJECT WILL ACHIEVE). A huge thanks to #NationalLottery players! #HeritageFund

### Example post two:

Project update! This week we (INSERT RECENT ACTIVITY). Thanks to the #NationalLottery #HeritageFund for your vital support. @HeritageFundUK

### Example post three:

This week our (INSERT PROJECT NAME) comes to an end. We have (INSERT WHAT ACHIEVED). A big thank you to The #NationalLottery #HeritageFund @HeritageFundUK and the players for making this possible!

## Fersiwn Cymraeg

### Postiad enghreifftiol un:

Rydym wrth ein boddau i gyhoeddi cefnogaeth (NODWCH SWM YR ARIAN) gan @HeritageFundCYM ar gyfer ein prosiect (NODWCH TEITL Y PROSIECT) a fydd yn (NODWCH BETH FYDD Y PROSIECT YN EI GYFLAWNI). Diolch yn fawr iawn i chwaraewyr y

#LoteriGenedlaethol! #CronfaTreftadaeth

### Postiad enghreifftiol dau:

Diweddariad prosiect! Yr wythnos hon fe wnaethom (NODWCH Y GWEITHGAREDD DIWEDDARAF). Diolch i'r

#LoteriGenedlaethol #CronfaTreftadaeth am eich cefnogaeth hollbwysig. @HeritageFundUK

### Postiad enghreifftiol tri:

Yr wythnos hon mae (NODWCH ENW'R PROSIECT) yn dod i ben. Rydyn ni wedi (NODWCH YR HYN A GYFLAWNWYD). Diolch yn fawr iawn i'r

#Loteri Genedlaethol #CronfaTreftadaeth @HeritageFundUK a'r chwaraewyr am wneud hyn yn bosib!

## Fersiwn Gaeleg Yr Alban

### A' chiad eisimpleir de shanas:

Is mòr ar toileachas foillseachadh gun d'fhuair sinn (CUIR AN T-SUIM AIRGID ANN) bho @HeritageFundUK airson ar pròiseict (TIOTAL A' PHRÒISEICT) a bhios (BUIL A' PHRÒISEICT). Taing mhòr dha-rìribh do dh'iomairtichean #NationalLottery! #HeritageFund

### An dàrna eisimpleir de shanas:

Naidheachd às ùr mun phròiseact! An t-seachdain sa, bha sinn (A' GHNÌOMHACHD AS ÙIRE). Ar taing do #NationalLottery #HeritageFund airson ur taic riatanaich. @HeritageFundUK

### An treas eisimpleir de shanas:

An t-seachdain sa, bidh ar pròiseact (AINM A' PHRÒISEICT) a' tighinn gu crìch. Tha sinn air (CUIR NA CHAIDH A THOIRT GU BUIL). Taing mhòr do #NationalLottery #HeritageFund @HeritageFundUK agus do na h-iomairtichean airson seo a thoirt gu buil!

# Sut i ddefnyddio ein stamp cydnabyddiaeth

## Sut i ddefnyddio ein stamp cydnabyddiaeth

- Mae'n rhaid defnyddio ein stamp cydnabyddiaeth i gydnabod ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- Ni ellir newid neu addasu ein stampiau mewn unrhyw ffordd a rhaid eu defnyddio fel yr amlinellir yn y pecyn cymorth hwn.
- Cofiwch sicrhau eich bod wedi lawrlwytho'r fersiynau diweddaraf o'n stampiau cydnabyddiaeth.
- Lawrlwytho ein stamp cydnabyddiaeth
- Wrth ddefnyddio ein stamp cydnabyddiaeth, a fyddech cystal hefyd â chynnwys y testun 'Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol' lle bo modd.
- Os nad yw'n bosibl defnyddio'r stamp cydnabyddiaeth o fewn logo cloi, mae opsiwn eilaidd ar gael. Gweler yr adran logo cydnabyddiaeth ar dudalen 45.
- Ni ellir defnyddio logo corfforaethol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol at ddibenion cydnabyddiaeth.






## Pa stamp cydnabyddiaeth i'w ddefnyddio

Mae ein stamp cydnabyddiaeth ar gael mewn gwyrddlas, gwyn a du.

Y stampiau cydnabyddiaeth gwyrddlas a gwyn yw'r rhai a ffefrir.

Opsiwn 1A – gwyn

Opsiwn 1B – gwyrddlas llachar

## Pa stamp cydnabyddiaeth i'w ddefnyddio

**Lliw du sengl**
Os na allwch ddefnyddio'r fersiynau gwyrddlas neu wyn, gallwch ddefnyddio'r stamp cydnabyddiaeth du.

Mae'r stamp hwn ar gael gyda'r bysedd croes wedi'u mewnlenwi mewn gwyn ac fel amlinelliad yn unig. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r fersiwn amlinellol; ar gyfer ysgythru, brodwaith neu argraffu du a gwyn.

Cysylltwch â brand@heritagefund.org.uk am gyngor pellach.

Opsiwn 1C – lliw du sengl

## Lleiafswm maint a gofod clir


Rhaid i faint y stamp cydnabyddiaeth a ddefnyddir fod yn gymesur

â maint y deunydd rydych yn ei gynhyrchu, er mwyn sicrhau ei fod yn glir, yn amlwg ac yn hawdd ei ddarllen. Ar gyfer deunyddiau cydnabyddiaeth mwy - er enghraifft ar ochr adeilad - gwnewch yn siŵr bod y logo'n ddigon mawr fel bod yr holl destun yn weladwy yn glir o bellter o 5 metr o leiaf.

Ni ddylid dangos y stamp cydnabyddiaeth Saesneg yn llai na 51mm.

Defnyddiwch ofod clir o gwmpas y stamp sydd o leiaf hanner uchder y bysedd croes.


cydnabyddiaeth – gofod clir




Lleiafswm maint – uchder




Lleiafswm maint - parth unigryw



## Defnyddio'r stamp cydnabyddiaeth

Mae ein stamp wedi'i ddylunio i weithio dros wahanol gefndiroedd lliw a ffotograffig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r stamp cydnabyddiaeth yn gywir, gan gynnwys sicrhau:

- y maint cywir o le o amgylch y stamp
- nad yw ymddangosiad y stamp yn cael ei newid mewn unrhyw ffordd
- bod y bysedd croes wedi'u mewnlenwi mewn gwyn
- bod y testun 'Made possible by / Gwnaed yn bosibl gan' yn ddarllenadwy
- bod digon o wrthgyferbyniad rhwng y stamp a'r cefndir

Defnydd cywir




Defnydd anghywir



## Stampiau dwyieithog

Mae ein stamp cydnabyddiaeth ar gael mewn gwyrddlas, gwyn a du yn yr ieithoedd a ganlyn:

A. Cymraeg
B. Gaeleg Yr Alban
C. Sgoteg
Ch. Gwyddeleg
D. Sgoteg Wlster
Dd. Cernyweg

Noder: rhaid i bob prosiect a gyflwynir yng Nghymru ddangos y stamp Cymraeg a Saesneg dwyieithog.

A. Cymraeg

B. Gaeleg Yr Alban

C. Sgoteg

Ch. Gwyddeleg

D. Sgoteg Wlster

Dd. Cernyweg


# Stamp dwyieithog

**Lleiafswm meintiau a pharthau**
Gwaharddedig Rhaid i'r maint defnyddio'r stamp cydnabyddiaeth fod yn gymesur â maint y deunydd rydych yn ei gynhyrchu, er mwyn sicrhau ei fod yn glir, yn amlwg ac yn hawdd ei ddarllen. Ar gyfer deunyddiau cydnabyddiaeth mwy - er enghraifft ar ochr adeilad - gwnewch yn siŵr bod y stamp cydnabyddiaeth yn ddigon mawr fel bod modd darllen yr holl destun yn glir o bellter o 5 metr o leiaf.


Ni ddylid dangos y stamp cydnabyddiaeth dwyieithog yn llai na 70mm. Defnyddiwch ofod clir o gwmpas y stamp sydd o leiaf hanner uchder y bysedd croes.

**Defnyddio'r stamp**
Mae'r stampiau Saesneg a dwyieithog ar gael mewn gwyrddlas, gwyn neu ddu. Ni chaniateir unrhyw liw arall.


Stampiau dwyieithog – gofod clir




Lleiafswm maint – uchder




Lleiafswm maint - parth unigryw



## Stamp defnydd arbennig

Mae ein stamp cydnabyddiaeth defnydd arbennig ar gael mewn gwyrddlas, gwyn a du.

Y stampiau cydnabyddiaeth gwyrddlas a gwyn yw'r rhai a ffefrir.

Nid yw'r fersiwn hon o'r stamp yn cynnwys y testun 'Made possible with / Gwnaed yn bosibl gan'. Dylid defnyddio hwn dim ond mewn amgylchiadau eithriadol pan fyddai'r testun fel arall yn annarllenadwy.

Cysylltwch â brand@heritagefund.org.uk am gymeradwyaeth a chaniatâd i'w ddefnyddio.

Opsiwn 2A – gwyn

Opsiwn 2B – gwyrddlas llachar

## Stamp defnydd arbennig

**Lliw du sengl**
Os na allwch ddefnyddio'r fersiynau gwyrddlas neu wyn, gallwch ddefnyddio'r stamp cydnabyddiaeth defnydd arbennig du.

Mae'r stamp hwn ar gael gyda'r bysedd croes wedi'u mewnlenwi mewn gwyn ac fel amlinelliad yn unig. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r fersiwn amlinellol; ar gyfer ysgythru, brodwaith neu argraffu du a gwyn..

Cysylltwch â
brand@heritagefund.org.uk
am gyngor pellach.

Opsiwn 2C – lliw du sengl



## Stamp defnydd arbennig


**Lleiafswm maint a gofod clir**
Rhaid i faint y stamp cydnabyddiaeth a ddefnyddir fod yn gymesur â maint y deunydd rydych yn ei gynhyrchu, er mwyn sicrhau ei fod yn glir, yn amlwg ac yn hawdd ei ddarllen.

Ni ddylid dangos y stamp cydnabyddiaeth defnydd arbennig Saesneg yn llai na 26mm.


Defnyddiwch ofod clir o gwmpas y stamp sydd o leiaf hanner uchder y bysedd croes.

**Defnyddio’r stamp defnydd arbennig**
Rhaid atgynhyrchu'r stampiau Saesneg a dwyieithog mewn gwyrddlas, gwyn neu ddu yn unig. Ni chaniateir unrhyw liw arall.


Stamp defnydd arbennig - gofod clir




Isafswm maint - uchder




Lleiafswm maint - parth unigryw



## Stampiau defnydd arbennig dwyieithog

Mae ein stamp cydnabyddiaeth defnydd arbennig ar gael mewn gwyrddlas, gwyn a du yn yr ieithoedd a ganlyn:

A. Cymraeg
B. Gaeleg Yr Alban
C. Sgoteg
Ch. Gwyddeleg
D. Sgoteg Wlster
Dd. Cernyweg

Noder: Rhaid i bob prosiect a gyflwynir yng Nghymru ddefnyddio'r logo Cymraeg a Saesneg dwyieithog.

A. Cymraeg

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

B. Gaeleg Yr Alban

A' Mhaoin-Dualchais
Heritage Fund

C. Sgoteg

Heritage Fund

Ch. Gwyddeleg

Ciste Oidhreachta
Heritage Fund

D. Sgoteg Wlster

Heirskip Kist
Heritage Fund

Dd. Cernyweg

Arghas Ertach
Heritage Fund


## Bilingual special use stamp

Rhaid i faint y stamp defnydd arbennig a ddefnyddir fod yn gymesur â maint y deunydd rydych yn ei gynhyrchu, er mwyn sicrhau ei fod yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.


Ni ddylid dangos y stamp cydnabyddiaeth defnydd arbennig dwyieithog yn llai na 36mm.

Defnyddiwch ofod clir o gwmpas y stamp sydd o leiaf hanner uchder y bysedd croes.


Dwyieithog – stamp defnydd arbennig – gofod clir




Lleiafswm maint – uchder




Lleiafswm maint - parth unigryw



## Logo cydnabyddiaeth – fformat tirlun

Dylid defnyddio'r logo cydnabyddiaeth pan nad yw'n bosibl defnyddio'r stamp cydnabyddiaeth yn eich dyluniad. Cysylltwch â [brand@heritagefund.org.uk](mailto:brand@heritagefund.org.uk) i gael cymeradwyaeth a chaniatâd i ddefnyddio'r logo.

Mae'r logo cydnabyddiaeth hefyd i'w ddefnyddio pan ddangosir logos lluosog ar ddeunyddiau fel byrddau arianwyr. Gellir ei ddefnyddio hefyd mewn logos cyfunol os nad ni yw'r ariannwr pennaf. Cysylltwch â [brand@heritagefund.org.uk](mailto:brand@heritagefund.org.uk) am gymeradwyaeth.

Mae'r lleiafswm meintiau a'r parthau gwahardd fel a ddangosir. Rhaid i faint y logo a ddefnyddir fod yn gymesur â maint y deunydd rydych yn ei gynhyrchu, er mwyn sicrhau ei fod yn glir, yn amlwg ac yn hawdd ei ddarllen.

Logo cydnabyddiaeth – gofod clir

Made possible with Heritage Fund

Lleiafswm maint - uchder

Made possible with Heritage Fund

20mm
75px

Lleiafswm maint - parth unigryw

Made possible with Heritage Fund

10mm
38px

## Logo cydnabyddiaeth dwyieithog

Mae'r logo cydnabyddiaeth ar gael mewn fformatau dwyieithog: Cymraeg, Gaeleg yr Alban, Sgoteg, Gwyddeleg, Sgoteg Wlster a Chernyweg. Mae'r lleiafswm meintiau a'r parthau gwahardd ar gyfer logos dwyieithog i gyd fel a ddangosir.

Dwyieithog – logo cydnabyddiaeth – gofod clir

Lleiafswm maint - uchder

45mm
170px

Lleiafswm maint - parth unigryw

10mm
38px

# Pa liwiau a mathau ffeil i'w defnyddio

Mae ffeiliau lliw CMYK i'w defnyddio mewn deunyddiau printiedig, mae ffeiliau lliw RGB ar gyfer deunyddiau digidol ar-lein ac mae lliw PMS (Pantone) ar gyfer argraffu o ansawdd uchel lliw sbot..

**Pa fathau ffeil i'w defnyddio**

Gellir defnyddio ffeiliau PNG ar gyfer y rhan fwyaf o ddibenion digidol er enghraifft, gwefannau a blogiau, cyflwyniadau, cyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn ddefnyddiol os oes angen i chi ychwanegu logo at gefndir lliw neu ar ben delweddau eraill.

Defnyddir ffeiliau EPS ar gyfer argraffu. Bydd angen y ffeiliau hyn ar eich dylunydd a dim ond mewn rhaglenni dylunio y gellir eu hagor, er enghraifft Adobe Photoshop ac Adobe InDesign.

Dim ond os nad oes gennych chi fynediad i feddalwedd dylunio y defnyddir ffeiliau JPEG.

.

Palet lliwiau sylfaenol

| | Teol Bright | Du | Gwyn |
|---|---|---|---|
| CMYK | 100, 21, 28, 11 | 0, 0, 30, 100 | - |
| PMS | 2390 C | Process Black C | - |
| RGB | 0, 127, 161 | 0, 0, 0 | 255, 255, 255 |
| HEX | 007FA1 | 000000 | FFFFFF |

# Cymeradwyo cydnabyddiaeth

Dylid anfon yr holl ddeunyddiau hyrwyddo a brand sy'n cynnwys ein stamp cydnabyddiaeth neu logo cydnabyddiaeth at eich Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu a'ch Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Treftadaeth i gael eu cymeradwyo.

Rhaid cael cymeradwyaeth cyn cynhyrchu. Rhowch saith diwrnod i dderbyn cymeradwyaeth gan y Gronfa Treftadaeth.

Ar gyfer ymholiadau ynghylch cydnabyddiaeth, gyrrwch e-bost **brand@heritagefund.org.uk**

**Sut y byddwn yn asesu a yw eich cydnabyddiaeth yn bodloni ein gofynion:**

- Byddwn yn asesu a ydych wedi bodloni'r gofynion a amlinellir yn y pecyn cymorth hwn.
- Bydd cynrychiolwyr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn disgwyl gweld cydnabyddiaeth o'n hariannu yn ei le a gallant godi'r mater gyda chi os nad yw cydnabyddiaeth glir ac amlwg yn cael ei harddangos.
- Os yw ein stamp neu logo cydnabyddiaeth wedi'i gymhwyso'n anghywir, efallai y gofynnir i chi ei newid.